# Bwletin y Farchnad HCC

Mawrth 2021

**Cafodd ffigurau dosbarthiad EUROP ar gyfer 2020 eu rhyddhau yn ddiweddar ac maen nhw'n dangos fod gan gyfran uwch o ŵyn yng Nghymru'r rhagofynion cydffurfiad dewisol a bod cyfran is o wartheg dethol trymion wedi eu lladd yn lladd-dai Prydain. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y ffigurau.**

## ŴYN

Casglwyd yr wybodaeth ar gyfer ŵyn yn lladd-dai Cymru yn 2020 i ddangos sut roedd carcasau wedi cael eu dosbarthu ar draws grid dosbarthiad EUROP yn ystod y flwyddyn. Mae'r ystadegau cyffredinol yn dangos fod dros hanner (53.3%) y carcasau ŵyn yn y sampl pwysau marw wedi cael cydffurfiad **R** yn lladd-dai Cymru, sef 4.1 pwyntiau canran yn fwy nag yn 2019. Dyma'r gyfran uchaf o ŵyn â chydffurfiad **R** ers sawl blwyddyn. Cafwyd gostyngiad o 2.8 pwyntiau canran yn ystod y flwyddyn yng nghyfran yr ŵyn â chydffurfiad **E** a gostyngiad o 3.5 pwyntiau canran ar gyfer yr ŵyn â chydffurfiad **U**. Llwyddodd dros 86% o'r sampl i gael y graddau dewisol **E**, **U** ac **R** - sef 2% yn llai nag yn 2019. Y rheswm am hyn oedd bod cyfran uwch o'r ŵyn wedi cael eu graddio'n **O** (+2.2 pwyntiau canran).

Yn ystod 2020, dangosodd yr asesiad rhifol (1-5) am fraster fod y rhan fwyaf (47.6%) o'r ŵyn yn nosbarth braster **3L**, sef 1.7 pwyntiau canran yn fwy na'r llynedd. Ar ben hyn, cafwyd cynnydd o 3.0 pwyntiau canran yng nghyfran yr ŵyn a gafodd ddosbarthiad braster is o **2**, sef 22.5% o'r holl ŵyn a laddwyd. Digwyddodd hyn am fod ŵyn ysgafnach ar y cyfan wedi cael eu hanfon i'w lladd yn ystod y flwyddyn – efallai oherwydd Brexit a gwell amodau'r farchnad yn annog ŵyn i ddod ymlaen yn gynt. Roedd canran yr ŵyn yng Nghymru a gafodd eu graddio'n **R3L** yn 24.2%, sef 2.7 pwyntiau canran yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Fel arfer byddai'r radd hon yn ddigon ar gyfer pris sylfaen prosesydd, ac felly mae'n dda gweld cynnydd yn nifer yr ŵyn sy'n llwyddo i gael y dosbarthiad. Ym Mhrydain, roedd 28.6% o'r carcasau ŵyn yn y sampl yn nosbarth **R3L**, sef ychydig yn uwch nag yng Nghymru. Yn gyffredinol, llwyddodd 59.4% o'r ŵyn yn lladd-dai Cymru i gyrraedd y sector darged (cydffurfiad **E**, **U** neu **R** ac **2** neu **3L** ar gyfer braster) yn ystod 2020, sydd yn uwch na'r 56.6% yn 2019.

**Canran yr Holl Garcasau ŵyn yn ôl Dosbarthiad Braster a Chydffurfiad yn Lladd-dai Cymru, 2016-2020**

| Dosbarth Braster | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 1.0 | 19.4 | 47.9 | 23.9 | 6.7 | 0.9 | 0.1 |
| 2017 | 1.3 | 19.3 | 45.2 | 25.8 | 6.9 | 1.2 | 0.3 |
| 2018 | 1.6 | 20.7 | 47.2 | 23.6 | 6.0 | 0.9 | 0.2 |
| 2019 | 1.2 | 19.5 | 45.9 | 24.8 | 7.2 | 1.0 | 0.3 |
| 2020 | 1.3 | 22.5 | 47.6 | 22.2 | 5.6 | 0.7 | 0.2 |

| Dosbarth Cydffurfiad | E | U | R | O | P |
|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 10.1 | 27.0 | 48.8 | 14.1 | 0.1 |
| 2017 | 9.9 | 28.0 | 50.3 | 11.8 | 0.1 |
| 2018 | 10.8 | 29.4 | 48.7 | 11.1 | 0.0 |
| 2019 | 9.9 | 29.3 | 49.2 | 11.6 | 0.0 |
| 2020 | 7.1 | 25.8 | 53.3 | 13.8 | 0.0 |

## GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer gwartheg dethol yn 2020 yn seiliedig ar ladd-dai ym Mhrydain. Mae'r ffigurau'n dangos fod nifer y gwartheg dethol a gafodd gydffurfiad **R** yn ystod y flwyddyn yn 46.3%, sef 1.1 pwyntiau canran yn uwch nag yn 2019. Hefyd, cafodd 0.6% yn fwy o wartheg eu dosbarthu ag **O+** ar gyfer cydffurfiad, gan roi cyfradd o 24.8% o'r sampl. Roedd y cydffurfiadau **R** ac **O+** yn cyfrif am dros 71% o'r holl gydffurfiadau ar gyfer gwartheg dethol yn ystod y flwyddyn, sef 1.7 pwyntiau canran yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.


Gyda'i gilydd, roedd dosbarthiadau braster **3** a **4L** yn cyfrif am bron 80% o ddosbarthiadau gwartheg dethol yn 2020, gyda chynnydd o 1.3 pwyntiau canran yn nifer y gwartheg yn nosbarth braster **3**. Oherwydd cynnydd yn nghyfran y gwartheg â llai o fraster, roedd yna lai o wartheg â gradd **4H** (9.6% o'r sampl). Roedd bron 37% o'r carcasau gwartheg dethol yn sampl Prydain yn **R3** ac **R4L** yn 2020, sef 1.2 pwyntiau canran yn fwy na'r llynedd. Fel arfer byddai hyn yn ddigon ar gyfer pris sylfaen cyfartalog prosesydd ym Mhrydain, ac felly mae'n newyddion da i'r sector cig eidion.

Dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion anelu at ateb rhagofynion y farchnad a'r cwsmer. Pennir y rhagofynion hyn drwy ddeall gofynion y cwsmer ac, ar yr un pryd, drwy geisio bod yn effeithlon wrth gynhyrchu a phrosesu. Mae'n anochel y bydd unrhyw garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r rhagofynion hyn yn arwain at gosb a chostau cynyddol i'r sawl sydd yn y gadwyn gyflenwi.

**Canran yr Holl Garcasau Gwartheg Dethol yn ôl Dosbarthiad Braster a Chydffurfiad yn Lladd-dai Prydain, 2016-2020**

| | 1 | 2 | 3 | 4L | 4H | 5L | 5H | Y Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | **0.4** |
| U+ | 0.1 | 1.1 | 1.8 | 0.5 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | **3.6** |
| U- | 0.2 | 1.9 | 6.1 | 5.2 | 0.9 | 0.0 | 0.0 | **14.2** |
| R | 0.2 | 3.7 | 18.0 | 18.8 | 5.2 | 0.3 | 0.0 | **46.3** |
| O+ | 0.2 | 1.8 | 9.1 | 10.3 | 3.1 | 0.3 | 0.0 | **24.8** |
| O- | 0.1 | 1.2 | 4.6 | 2.5 | 0.4 | 0.0 | 0.0 | **8.9** |
| P+ | 0.1 | 0.5 | 0.6 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | **1.4** |
| P- | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | **0.3** |
| Y Cyfan | **1.2** | **10.5** | **40.4** | **37.5** | **9.6** | **0.7** | **0.1** | |


*Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a wnaed mewn lladd-dai ar draws Prydain lle caiff carcasau eu dosbarthu yn ôl grid dosbarthiad EUROP. Data gan AHDB*





## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 214.7c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Mawrth, sef 0.7c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Dyma'r drydedd wythnos yn olynol i'r pris gynyddu, ac mae'r pris cyfartalog yn dal i fod yn gryf mewn cymhariaeth â phrisiau'r gorffennol. Mae'r pris cyfredol yn 21.6c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl ac yn 25.7c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 187.2c/kg). Yn ôl adroddiadau gan y diwydiant, mae cyflenwad cyfyngedig yn helpu i gynnal y prisiau. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Mawrth, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 385.7c/kg, sef 6.4c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 53.5c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 384.2c/kg (+7.7c ar yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 368.9c/kg (+4.1c), a'r pris am fuchod difa oedd 265.8c/kg (+5.2c).

Cyfanswm yr holl wartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Chwefror oedd 217,400, sef 3.3% yn llai nag ym mis Chwefror 2020. Lladdwyd 1.4% yn llai o wartheg dethol (cyfanswm o 159,900) yn ystod y mis, a gwelwyd gostyngiad o gymaint â 2.0% yn nifer y bustych a laddwyd. Roedd niferoedd y gwartheg llawn dwf, sef 53,100 (-0.3%) yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Hyd yma yn 2021 cafodd 4.2% yn llai o wartheg eu lladd nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd cyfanswm y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Chwefror yn 73,300 tunnell, sef 1.6% (neu 1,200 tunnell) yn llai na blwyddyn yn gynharach.









## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ar gyfer ŵyn dethol pwysau byw (Hen Dymor a Thymor Newydd) , mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi tueddu i fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Mawrth, cwympodd y pris 0.4p i gyfartaledd o 285.9c/kg. Mae hyn yn 36.8c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2020, a 74.3c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 211.6c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru yn £87.90 y pen ar gyfartaledd, sef 30c yn is na'r wythnos flaenorol a £13.20 yn is nag yn 2020. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 638.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 20 Mawrth (+ 87.2c ar y flwyddyn).

Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU ym mis Chwefror oedd 853,400, sef 10.3% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 7.9% yn llai o ŵyn dethol na'r llynedd (cyfanswm o 765,900), a lladdwyd 26.7% yn llai o famogiaid difa a hyrddod (cyfanswm o 87,500). Dyma'r nifer lleiaf o ŵyn oddi ar fis Mai 2013, sy'n adlewyrchu'r nifer gyfyngedig o ŵyn ar y farchnad gartref a byd-eang. Mae'r gostyngiad yn nifer yr holl ddefaid a laddwyd yn cael ei adlewyrchu ym mhwysau'r cig defaid a gynhyrchwyd, sef 18,000 tunnell; mae hynny'n 9.3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.




## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 143.7c/kg yn yr wythnos yn diweddu 13 Mawrth, sef 0.4c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris cyfartalog cyfredol yn is na'r llynedd (-21.6c), ond mae'n 0.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod galw o hyd o ranbarthau Asia am borc yn enwedig. Mae'r prisiau yn Ewrop yn dal i gryfhau. Roedd pris cyfeirio'r UE yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 06 Mawrth yn 5.0c yn uwch na'r wythnos flaenorol ac wedi cyrraedd bron i 123c/kg.

Lladdwyd cyfanswm o 928,800 o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Chwefror, sef 5.5% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol, ac mae hyn yn awgrymu fod y lladd-dai'n delio â'r ôl-groniad o foch ar y ffermydd. Y prif reswm am y cynnydd mewn cymhariaeth â'r llynedd oedd bod 45,000 yn fwy o foch heb fagu wedi cael eu hanfon i'w lladd. Roedd carcasau moch heb fagu yn ystod y mis, ar gyfartaledd, yn pwyso 89.9kg ac yn 3.1kg yn drymach na'r llynedd (yn fwy na thebyg am y bu'n rhaid eu cadw'n hirach ar y fferm). Am fod mwy o foch wedi cael eu lladd ac am fod y carcasau'n drymach ar gyfartaledd, cafodd 9.5% yn fwy o borc ei gynhyrchu yn ystod mis Chwefror.

